

Gwyddor Ceffylau

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Gwanwyn 2009

Cyrsiau IBERS yn cael y sgôr uchaf yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol

Rydym yn falch iawn o gael y sgôr uchaf yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, sef arolwg o fyfyrwyr sy'n mesur boddhada mewn nodweddion penodol megis dysgu, asesu, cymorth ac adborth. Rydym wedi cael canlyniadau da erioed, ac mae canlyniadau 2008 yn well eto. Llwyddodd amaethyddiaeth, a phynciau perthynol eraill (fel cyrsiau gwyddor ceffylau a gwyddor anifeiliaid) a gynigir yn IBERS, i ennill y sgôr **uchaf** yn y DU am foddhad myfyrwyr.

Dyma oedd gan Gyfarwyddwr y Sefydliad, yr Athro Wayne Powell, i'w ddweud am y canlyniadau: "Mae'r arolwg hwn yn cadarnhau'r hynny mae ein myfyrwyr eisoes yn ei ddweud wrthym am y dysgu. Mae ymrwymiad a gwybodaeth arbenigol y staff, yr adnoddau rhagorol megis ffermydd, labordai ac amgylchfyd hyfryd Aberystwyth, oll yn cyfuno i wneud IBERS yn ddewis cyntaf amlwg".

A meddai'r Athro Will Haresign, y Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu: "Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu'r gwaith caled sy'n mynd ymlaen yn y Sefydliad o safbwynt y sylw a roddir i anghenion myfyrwyr a'r ymgais a wneir i sicrhau eu bod yn cael y profiad addysgol gorau y gallwn ni ei gynnig iddynt".

Gornest Ryngwladol Derfynol Cwpan y Cenedloedd i Fyfrwyr am Farchogaeth (SRNC) – Lwc Dda Bea!

Mae Bea Meitiner yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae Bea, sy'n gwneud gradd MSc mewn Gwyddor Ceffylau, wedi bod yn hyfforddi'n galed ar gyfer Gornest SRNC Derfynol y Byd yn Lwcsembwrg dros y Flwyddyn Newydd lle bydd, ynghyd â 2 arall, yn cynrychioli Prydain yn erbyn 17 o dimau o bob cwr o'r byd, gan gynnwys UDA, Canada, Affrica ac Ewrop – pob lwc Bea!

Ydych chi'n gwybod beth sy'n byw ym mherfedd eich ceffyl!?

Mae Tim Snelling, un o'r uwchraddedigion sy'n aelod o'n grŵp ymchwil ar Faethg Ceffylau, wedi cael syniad da. Cwblhaodd Tim raddau BSc ac MSc yn IBERS, ac mae'n awr yn gwneud gwaith ymchwil ar gyfer doethuriaeth ac yn canolbwyntio ar fyd microbaidd rhyfedd ôl-berfedd ceffyl, gan ganolbwyntio ar ciliates. Dim ond cell sengl yw ciliates, ond y mae 10-100 gwaith yn fwy na bacteria ac yn meddu ar bopeth sydd ei angen arnynt i symud o gwmpas a charthysu ar gynnwys coluddion y ceffyl, pori ar facteria, a phori hefyd ar ciliates eraill o bryd i'w gilydd. Ni wyddom yn union beth yw eu swyddogaeth, ond maent yn ffynnu mewn ceffylau sy'n cael ffibr, a chredir eu bod yn helpu i reoli twf bacteria niweidiol sy'n achosi colig a laminitis. Mae Tim yn aelod o dim ymchwil sy'n ceisio dosbarthu'r microbau hyn drwy gyfrwng dilyniannu genynnol, ac sydd hefyd yn ceisio canfod a oes ganddynt y gallu i gaffael genynnau gan rywogaethau eraill drwy broses a elwir yn Drosglwyddiad Genynnau Llorweddol.



Tripalmaria Dogieli – un o'r ciliates sy'n byw ym mherfedd ceffyl.



Cycloposthium - ciliates arall sy'n byw ym mherfedd ceffyl.

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig **IBERS ABERYSTWYTH**

Rhestr Cyrsiau

MSc

Gwyddor Ceffylau (D391)

Diploma Uwchraddedig

Gwyddor Ceffylau

Tystysgrif Uwchraddedig

Maethg Ceffylau

Bridio Ceffylau a Rheoli Bridfeydd

BSc Anrhydedd

Gwyddor Ceffylau (D322)

Gwyddor Chwaraeon a Cheffylau (CD64)

Astudiaethau Ceffylau (D325) (1-flwyddyn ychwanegol)

Gradd Sylfaen

Astudiaethau Ceffylau (D324)

Diploma Genedlaethol Uwch

Astudiaethau Ceffylau a Busnes (1HND)

Astudiaethau Ceffylau (423D)

Cyswllt

Carol Green:

Mina Davies Morel

Tony O'Regan:

(01970) 624471

cgg@aber.ac.uk

mid@aber.ac.uk

tor@aber.ac.uk

Gregynog



Tŷ Gregynog, tipyn o foethusrwydd ar gyfer y myfyrwyr MSc!

Dychwelodd myfyrwyr MSc Gwyddor Ceffylau o'u cynhadledd tri diwrnod yng Ngregynog wedi blino ond â'u brwdfrydedd wedi ei danio gan ddarlithwyr fel Yr Athro Duncan Hannant (Ymddiriedolaeth Iechyd Anifeiliaid), Chris Pardoe (Yr Ysgol Filfeddygol Frenhinol), Dr Colin Roberts (Ysgol Filfeddygol Caergrawnt) a Richard Coomer, (Cotts Farm Equine Clinic Ltd, Sir Benfro).

Llwyddiant Gwaith Ymchwil Lee-Ann

Ym mis Tachwedd, teithiodd Lee-Ann Penaluna, myfyrwrraig MSc mewn Gwyddor Ceffylau, i Utrecht i gyflwyno ei phrosiect traethawd hir MSc yng nghynhadledd flynyddol y Gymdeithas Ewropeaidd ar Atgenneddiad Anifeiliaid Domestig (ESDAR). Amcan prosiect Lee-Ann oedd llunio a pherffeithio dull o dyfu celloedd croth o gesyg, techneg nad yw eto wedi ei berffeithio ar gyfer ceffylau ond sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer gwartheg. Gan fod Lee-Ann yn awr wedi arfaethu'r dechneg hon, mae'n bosibl tyfu celloedd croth mewn labordy a'u herio gyda moleciwlau dieithr megis bacteria a sberm er mwyn dynwared amgylchfyd y groth ar ôl bridio. Bydd hyn yn ein galluogi i astudio ymateb celloedd y grotho i gyplu yn well, a'n helpu i ddeall y prosesau sy'n arwain at lid ar ôl bridio, sy'n gallu arwain at anffrwythlondeb. Cyflwynodd Lee-Ann ei gwaith ar ffurf poster a ddangoswyd yn ystod y gynhadledd tri diwrnod. Rhoddodd hyn gyfle iddi drafod ei syniadau â gwyddonwyr a milfeddygon blaenllaw o bob rhan o Ewrop. Llongyfarchiadau i Lee Ann sydd yn awr wedi ei phenodi'n ddarlithydd yng Ngholeg Abingdon a Witney.



Lee Ann wrth ymyl ei phoster yng Nghynhadledd ESDAR

Sioe "Your Horse Live" Llwyddiannus Arall

Unwaith eto, bu ein stondin yn y sioe *Your Horse Live* yn llwyddiannus iawn. Dosbarthwyd dros 1,500 o bamffledi am astudiaethau ceffylau, ynghyd â pheccynau gwybodaeth am y brifysgol, i bawb a oedd â diddordeb yn ein cysysau. Perfformiodd Joseph Baxter, myfyrwr Gwyddor Ceffylau blwyddyn gyntaf, yn y sioe fel rhan o'r "Rockin Horse Stunt Team". Roedd campau acrobatig y tîm yma'n wirioneddol anhygoel – braf gweld y fath ddoniau.



Stondin *Your Horse Live*

Clwb Marchogaeth Aberystwyth yn dechrau blwyddyn arall yn fuddugoliaethus

Ddydd Mercher, 26 Tachwedd, cychwynnodd tîm marchogaeth B Aberystwyth eu tymor yn llwyddiannus trwy gystadlu yn y gyntaf o dair cystadleuaeth marchogaeth Myfyrwyr Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) yn erbyn Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe. Roedd tîm B yn llwyr deilngu'r wobwr gyntaf gyda 7 pwynt cosb, a Chaerdydd yn ail gydag 14 o bwyntiau cosb ac, yn olaf, Abertawe gyda 43 o bwyntiau. Roedd pob aelod o'r tîm hefyd yn cael eu gosod yn gyntaf, ail, trydydd ac ati - da iawn bawb.

Ddydd Mercher, 3 Rhagfyr, cafodd tîm A hefyd lwyddiant drwy ddod yn gyntaf yn y cyntaf o gystadlaethau marchogaeth BUCS yn erbyn Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe. Er gwaethaf y tywydd garw, daethant yn gyntaf heb unrhyw bwyntiau cosb, tra daeth Caerdydd yn ail gyda 24 o bwyntiau cosb, ac Abertawe yn drydydd gyda 53 o bwyntiau cosb. Ar lefel unigol, daeth ein Joanna Francis ni yn gyntaf ar ôl round *dressage* ragorol - llongyfarchiadau calonnog i bawb.



Tim A, Clwb Marchogaeth y Brifysgol:
Monika Lauber, Jemma Cooper, Nikki Clarke a Joanna Francis

Digwyddiadau yn Lluest

Mae canolfan geffylau Lluest wedi bod yn llawn prysurdeb eto eleni ac yn cynnal cystadlaethau deirgwaith y mis.

Cynhelir cystadlaethau *dressage* cysylltiedig bob mis sy'n denu cystadleuwyr o bob cwr o Gymru a Lloegr. Yn ogystal â'r cystadlaethau *dressage* arferol, rydym hefyd yn cynnal gemau cymhwysol ar gyfer cystadlaethau i ddechreuwr yn ogystal â chystadlaethau elfennol, canolig a pharagystadlaethau.

Cynhelir **cystadlaethau neidio ceffylau digysylltiad** bob mis, ac fe'u cefnogir gan ein myfyrwyr ein hunain a'r gymuned leol. Mae Lluest yn cynnal cynghrair aeaf ar gyfer *dressage* a sioeau neidio ceffylau digysylltiad lle caiff cystadleuwyr bwyntiau am eu gwobrwyon dros y chwe gornest gyda phencampwriaeth derfynol ar ddiwedd semester 2.

Ddydd Llun, 8 Rhagfyr, daeth Andrew Gardner, y beirniad a'r hyfforddwr *dressage* rhyngwladol i'r ganolfan i gynnal clinig i farchogion/myfyrwyr gyda'u ceffylau eu hunain. Yn ogystal â chymryd rhan, gallai'r myfyrwyr wylïo'r meistr wrth ei waith.

Hyfforddiant Cymdeithas Ceffylau Prydain

Fel canolfan farchogaeth sydd wedi ei chymeradwyo gan Gymdeithas Ceffylau Prydain, mae llawer o fyfyrwyr wedi trefnu i gael gwersi gan staff yn ystod yr wythnos ac ar foreau Sul, ac mae 10 wedi eu cofrestru am arholiadau'r Gymdeithas mewn Marchogaeth a Gofal Ceffylau. Bydd y gwersi'n parhau'r flwyddyn nesaf gyda chwrs chwe wythnos ychwanegol i baratoi am dystysgrif dysgu rhagarweiniol Cymdeithas Ceffylau Prydain.



Tim B, Clwb Marchogaeth y Brifysgol:
Ayesha Banks, Ellen Brouwer, Claire Law a Lowri Powell

Hoffai'r ddau dîm ddiolch i Ganolfan Ceffylau Lluest am eu cymorth parod ac am gael defnyddio eu hadnoddau. Hefyd, y maent yn fawr eu diolch i *Shearwater Insurance* a *Celtic Equestrian* am eu noddi.

Ffrwyth gwaith tîm yw llwyddiant y clybiau marchogaeth hyn i gyd, oherwydd y mae'r holl fyfyrwyr sy'n gwneud Gradd Sylfaen neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch mewn Astudiaethau Ceffylau yn helpu i baratoi'r ceffylau ar gyfer y cystadlaethau. Mae hyn yn golygu llawer o waith caled er mwyn sicrhau bod y ceffylau yn edrych ar eu gorau. Roedd y ceffylau i gyd yn glod i'r myfyrwyr a'r staff - da iawn.